

Mae'r cofnodion yma yn destun cymeradwyaeth fel cofnod cywir yng nghyfarfod nesaf y Cydbwyllgor

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**  
**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

**CYDBWYLLGOR AMLOSGFA LLWYDCOED**

**Cofnodion** o gyfarfod Cyd-bwyllgor Amlosgfa Llwydcoed a gynhaliwyd yn Swyddfeydd Dinesig Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Merthyr Tudful ddydd Mawrth, 11 Rhagfyr 2018 am 2pm.

**YN BRESENNOL**

**Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful**  
M. Colbran, J. Thomas, D. Isaac a D. Chaplin

**Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf**  
H. Boggis, (Mrs) A. Crimmings a G. Jones

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Ms J. Lewis – Rheolwr Gwasanaethau Profedigaethau  
Mr. C. Pritchard – Rheolwr Cynorthwyol y Fynwent  
Mr. S. Preddy – Cyfrifydd Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned  
Mrs L. Coughlan – Cyfreithiwr

**17 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Roedd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol A.S. Fox a K. Morgan (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf).

**18 DATGAN BUDDIANT**

**PENDERFYNWYD** - Yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau'r Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud yn y cyfarfod ynglŷn â'r agenda:

1. Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Jones ynglŷn â Chofnod 13  
- "Mae gen i gysylltiadau â'r Côr Meibion Lleol".

2. Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol H Boggis mewn perthynas ag eitem 3 ar yr agenda:  
"Mae gen i gysylltiadau â Dudley Fabrications".

**19 MATERION YN CODI**

Cafodd yr aelodau wybod nad oedd modd i'r Côr Meibion Lleol berfformio yng Ngwasanaeth Carolau Nadolig Llwydcoed eleni. Serch hynny, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn eu gwahodd i'r Gwasanaeth Carolau Nadolig ym mis Rhagfyr 2019.

## 20 **COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau cofnodion o gyfarfod  
Cyd-bwyllgor Amlogfa Llwydcoed a gynhaliwyd ar 18 Medi 2018 yn rhai cywir.

## 21 **ADRODDIAD RHEOLWR Y GWASANAETHAU PROFEDIGAETHAU**

### 21.1 **Rhaglen Waith Gyfalaf**

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Profedigaethau adroddiad mewn perthynas â'r rhaglen waith gyfalaf, a chynghorodd yr Aelodau i hwyluso gwaith gwella yn Amlogfa Llwydcoed yn rhan o gynllun 3-5 mlynedd, yn dilyn eu cymeradwyaeth.

Gofynnodd un aelod a oedd amserlen ar gyfer cwblhau tŷ'r Gofalwr. Atebodd Rheolwr Cynorthwyol y Fynwent fod disgwyl i'r gwaith gael ei gwblhau yn 2019.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r rhaglen waith gyfalaf arfaethedig.

### 21.2 **Gwasanaethau Carolau Nadolig Llwydcoed**

Cafodd yr Aelodau wybod fod Gwasanaeth Carolau Nadolig Amlogfa Llwydcoed wedi'i drefnu ar gyfer dydd Sadwrn 15 Rhagfyr 2018 a bod gwahoddiad i'r Aelodau a'u teuluoedd.

Yn dilyn trafodaethau, **PENDERFYNODD** yr Aelodau nodi'r wybodaeth.

### 21.3 **Trefniadau'r Nadolig a'r Flwyddyn newydd - Gwasanaethau Profedigaethau**

Cafodd yr Aelodau wybod am y trefniadau ar gyfer y Nadolig a'r flwyddyn newydd ac, yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth.

### 21.4 **Ystadegau a Chyflawniad**

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Profedigaeth yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r ystadegau a'r ffigurau cyflawniad sy'n ymwneud â gweithrediad yr Amlogfa ers y cyfarfod diwethaf.

Clywodd yr Aelodau fod nifer yr amloggiadau wedi cynyddu'n sylweddol ers i Amlogfa Llwydcoed gael ei hadnewyddu tua dwy flynedd yn ôl.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth yn y taflenni.

## **22**     **ADRODDIAD Y TRYSORYDD**

Rhoddodd y Cyfrifydd Cyfadran yr wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad Monitro'r Gyllideb 2018/19, a oedd yn cymharu'r gwariant gwirioneddol a'r gwariant rhagamcanol yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd am wyth mis cyntaf blwyddyn ariannol 2018/19. Cafodd eglurhad ei ddarparu mewn perthynas â'r prif amrywiant yn y gwariant.

Cafodd yr aelodau wybod fod y cronfeydd wrth gefn amcangyfrifedig ar gyfer mis Mawrth 2019 yn bwrw'r targed, a bod digon o gronfeydd wrth gefn i ddisodli ffwrneisi yn y dyfodol.

Ar ôl trafod yr adroddiad **PENDERFYNWYD** nodi'r diweddaraf am adroddiad Monitro'r Gyllideb 2018/19.

## **23**     **UNRHYW FATER ARALL**

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor ddiolch i holl staff Amlogfa Llwydcoed am eu gwaith caled a'u hymrwymiad dros y flwyddyn ddiwethaf, ar ei rhan. Caiff hyn ei werthfawrogi'n fawr.

**H.BOGGIS  
CADEIRYDD**

Daeth y cyfarfod i ben am 14.13.